


Crewyr Cadw: Celf Cadw

Adnodd Gweithgaredd ar gyfer Ysgrifennu Stori
#crewryrcadw



Brîff: Creu strïbed comic sy'n ðangos seiniau a ysbryðolwyð gan safle treftadaeth lleol.

Mae'r adnodd hwn yn defnyddio treftadaeth adeiledig i ysbrydoli ysgrifennu stori drwy gelf comics. Mae'r gweithgaredd yn cynorthwyo dysgwyr i ddeall strwythur stori, naratif, lleferydd a chrynodeb. Ar yr un pryd caiff cyfathrebu ysgrifenedig da ei annog ochr yn ochr â chynrychiolaeth weledol.

Mae celf comics yn ffordd hynod o hygyrch ac amrywiol o feithrin diddordeb dysgwyr ac mae'n gweithio gydag amrywiaeth o wahanol arddulliau dysgu. Mae hon yn ffurf gelf sy'n cynnwys nifer o ddisgyblaethau. Mae'n defnyddio delweddaeth weledol ac iaith i adrodd straeon ac archwilio i amrywiaeth eang o bynciau gan ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd. Er enghraifft, yn y cyd-destun hwn gellir archwilio hanes a daearyddiaeth leol drwy gyfuno adrodd straeon, ysgrifennu straeon, celfyddydau gweledol a dylunio digidol.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn argymhell defnyddio adnoddau lleol at ddibenion dysgu, ac mae'r gweithgareddau yn yr adnodd hwn yn awgrymu ffyrdd o ddefnyddio'r amgylchedd adeiledig lleol i ysbrydoli gwaith creadigol newydd. Mae'r adnodd hwn wedi ei gynllunio i hwyluso Cwricwlwm i Gymru ac Arts Awards.

Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn

Cafodd yr adnodd hwn ei gynllunio i gael ei ddefnyddio fel rhan o brosiect sy'n archwilio'r amgylchedd adeiledig lleol o gwmpas eich ysgol, cymuned neu wagle dysgu. Mae'r gweithgareddau hyn yn fwyaf effeithiol wrth eu defnyddio oddi fewn i fframwaith ein prosiect cyfan, Crewyr Cadw: Adnodd Dysgu Craidd Comics, sy'n darparu'r dulliau ymarfer gorau ar gyfer meithrin diddordeb a dysgu o'r amgylchedd adeiledig lleol.

Mae adnoddau eraill ar gyfer celf comics, gan gynnwys Comics Cadw, ar wefan Cadw. Cafodd y rhain eu cynllunio i gael eu defnyddio ochr yn ochr â gweithgareddau ysgrifennu stori i wella neu estyn y profiad dysgu. Fodd bynnag, mae llawer o artistiaid comics ledled y byd yn defnyddio treftadaeth a'r amgylchedd adeiledig fel ysbrydoliaeth i'w gwaith ac mae yna gyhoeddiadau di-ri a fydd hefyd yn hwyl ac yn ddiddorol i'w harchwilio.

Paratoi a chynllunio

- Defnyddio Crewyr Cadw: Adnodd Dysgu Craidd Comics i ymgynefino â'r fframwaith ar gyfer archwilio treftadaeth adeiledig fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth.
- Arwain sesiwn gyda'ch dysgwyr i ddewis safle o ddiddordeb.
- Cyflwyno'r briff hwn: defnyddio sain mewn comics i'ch dysgwyr.

Deall y brîff

Cyflwynwch y syniad o ysgrifennu straeon celf comics sydd wedi cael eu hysbrydoli gan safleoedd treftadaeth lleol. Er mwyn darlunio hyn, rhannwch un neu ddau o Gomics Cadw gyda'r dysgwyr i gyflwyno'r syniad o sut mae artistiaid comics wedi defnyddio treftadaeth i lywio eu gwaith.

Trafodwch y comics a'u straeon gyda'r dysgwyr. Dyma rai awgrymiadau am gwestiynau sy'n arwain at drafodaeth:

- ⇒ Beth ydych chi'n ei hoffi am y comics?
- ⇒ Sut fydddech chi'n disgrifio arddull y gwaith celf?
- ⇒ Sut mae'r comics yn defnyddio adeiladau neu'r amgylchedd?
- ⇒ Pa fath o gymeriadau sydd yn y comics?
- ⇒ Pa agweddau o'r comic sy'n ffurfio'r **naratif**?
- ⇒ A yw'r naratif wedi ei ysgrifennu yn y **person cyntaf neu'r trydydd person**?
- ⇒ Pa agweddau o'r comic sy'n ffurfio'r **deialog / siarad**?
- ⇒ Beth mae'r ddelwedd hon (dewiswch ddelwedd) yn ei ddweud wrthym ni am gymeriad penodol?
- ⇒ Sut gaiff emosiynau'r cymeriadau eu cynrychioli?

Archwiliwch strwythur y stori. Torrwch y stori i fyny i mewn i:

- ⇒ Agoriad
- ⇒ Bachyn y plot
- ⇒ Lleoliad
- ⇒ Datblygu'r plot
- ⇒ Uchafbwynt
- ⇒ Datrysiad

Pa rannau o'r stori sy'n cael eu cyfathrebu drwy destun a pha rannau sy'n cael eu cyfathrebu drwy ddelweddaeth?

A allai rhagor o agweddau o'r stori gael eu cyfathrebu drwy siarad?

Detholwch rai enghreifftiau o'r testun naratif. Allai'r enghreifftiau hyn gael eu gwneud hyd yn oed yn fyrrach?


Trafodwch y brîff gyda'r dysgwyr nawr.

Y Ddisgyblaeth Greadigol

Cyflwynwch y cysyniad o gelf comics i'r dysgwyr. Caiff hyn ei ddisgrifio'n fwy manwl yn ein fframwaith: *Crewyr Cadw: Adnodd Dysgu Craidd Comics*.

Defnyddiwch Comics Cadw i archwilio disgyblaeth celf comics a gwaith artistiaid cyfoes Cymru.

Mae celf comics yn defnyddio delweddau yn ogystal â geiriau i adrodd y stori. Trafodwch hyn gyda'r dysgwyr a'u hannog i feddwl am yr arddull gaiff ei defnyddio, a sut mae'r delweddau'n helpu i ddweud y stori. Gallech chi hefyd annog dysgwyr i ymchwilio i waith artistiaid comics eraill ar y we.



Ymweld â safle

Ewch i ymweld â safle lleol o ddiddordeb (gallai hyn fod yn ddysgu annibynnol fel rhan o weithgaredd dysgu cyfunol).

Archwiliwch neu ymchwiliwch i mewn i straeon am y safle neu adeilad gan ddefnyddio'r gweithgareddau a awgrymwyd yn *Crewyr Cadw: Adnodd Dysgu Craidd Comics*. Bydd hyn yn eich helpu i greu **deunydd ffynhonnell** ar gyfer stori. Gall y dysgwyr gadw ffeil ymchwil neu lyfr brasluniau o'u gweithgareddau, delweddau, brasluniau a darluniau, cyfweiliadau ac yn y blaen.

Mae'r llyfrau braslunio canlynol yn adnoddau defnyddiol i helpu i gasglu deunydd ffynhonnell wrth ymweld â safle treftadaeth: *Crewyr Cadw: Archwilio Arts Award Explore* a *Crewyr Cadw: Darganfod Arts Award Discover*. Maen nhw ar gael mewn safleoedd CADW mwy o faint, ond hefyd gallwch lawrlwytho a phrintio o cadw.llyw.cymru/dysgu ac o Hwb.cymru.

Anogwch y dysgwyr i dynnu lluniau o'r safle, gan gynnwys yr amgylchedd naturiol. Mae hyn yn bwysig fel ysbyrdoliaeth i'r darnau gweledol o'r strbyn comic.

Gan gyfeirio at y deunydd ffynhonnell a gasglwyd, gwahoddwch y dysgwyr i ddewis stori fer yr hoffen nhw ei harchwilio drostynt eu hunain. Nid yw'n angenrheidiol i'r grŵp i gyd ganolbwyntio ar yr un stori neu syniad. Wrth wahodd dysgwyr i ddilyn eu diddordebau personol, mae dysgu dan arweiniad yr unigolyn yn cael ei gefnogi, ac wrth rannu syniadau gyda chyd-ddisgyblion, caiff profiad dysgu pawb ei ehangu.



Ar ôl i chi ddychwelyd o'ch ymweliad, gwahoddwch y dysgwyr i barhau i ddatblygu a chynllunio eu stori yn y ffyrdd canlynol:

A. Datblygu cymeriad

Datblygwch y cymeriadau a fydd yn ymddangos yn y stori. Ymarfer gweledol fydd hwn. Dylai'r dysgwyr ystyried:

- ⇒ golwg
- ⇒ dillad
- ⇒ ystumiau'r wyneb
- ⇒ gweithredoedd
- ⇒ ategolion a allai ddynodi rôl y cymeriad

Ysgrifennwch ddisgrifiad o gymeriadau allweddol y stori i ddatblygu sgiliau llythrennedd gan ddefnyddio geiriau disgrifio. Hefyd, ystyriwch archwilio **ansoddeiriau, adferfau, trosiadau, a chymariaethau** os yw'n briodol i'ch dysgwyr a nodau'r prosiect



Creu a gwneud

B. Ysgrifennu stori

Defnyddiwch y we i ymgymryd ag ymchwil pellach i mewn i'r safle neu adeilad treftadaeth.

Cynlluniwch y **plot** i'r stori mewn nifer penodol o fframiau (dewiswch nifer priodol o fframiau ar gyfer gallu'r dysgwr). Dechreuwch gyda braslun o'r stori, yn cynnwys y cymeriadau allweddol a meddyliwch am y canlynol:

- ⇒ Ystyriwch **strwythur** y stori yn ôl Adran 4.
- ⇒ Dynodwch agweddau o'r stori sy'n gofyn am **naratif**. Sut gaiff y naratif ei ysgrifennu? A fydd e yn y **person cyntaf neu'r trydydd person**?
- ⇒ Dynodwch agweddau o'r stori y gellir eu hadrodd drwy weithredoedd neu eiriau cymeriad. Meddyliwch am y cyfathrebu mewn swigen siarad. Bydd y siarad yn y **person cyntaf**.
- ⇒ Sut fydd y swigod siarad yn cael eu trefnu i sicrhau eu bod yn cael eu darllen yn y **drefn** gywir fel bod y stori'n gwneud synnwyr?
- ⇒ Oes yna seiniau penodol sy'n berthnasol i'r stori? A gaiff y rhain eu cynnwys yn y comic fel **onomatopeia**?
- ⇒ Adolygwch a choethi'r iaith. Oes modd ei wneud yn fyrrach, yn haws ac yn fwy cwta? Ymarfer mewn ysgrifennu crynodeb yw hwn. Mewn celf comics, mae'r lluniau'n adrodd gymaint o'r stori ag sy'n bosibl, felly'r nod yw defnyddio testun sydd yn fyr ac yn gryno.

Creu a gwneud

Ar ôl gwneud y cynllun, rhowch y dasg i'r dysgwyr o ddatblygu'r elfennau gweledol i gynrychioli eu stori. Ystyriwch y canlynol:


- ⇒ Defnyddiwch waith celf yn y cefndir i osod yr olygfa, ystyriwch yr amser o'r dydd, y lle, yr amgylchedd. Myfyriwch am yr ymweliad â'r safle i ysbrydoli hyn.
- ⇒ Pryd gafodd y stori ei gosod? Ydy'r safle neu'r adeilad yn newydd neu'n hen ar yr adeg hon?
- ⇒ Sut gaiff y tywydd, y tymhorau a'r amgylchedd eu cynrychioli'n weledol?
- ⇒ Defnyddiwch ddillad ac ategolion i wella'r cymeriadau a dangos gweithredoedd neu symudiad. Oes yna gyddestun hanesyddol i'r dillad?
- ⇒ Defnyddiwch ystumiau i'r wyneb ac osgo a safle'r cymeriad i helpu i gyfathrebu emosiwn a chynrychioli gweithredoedd.
- ⇒ Rhowch y cymeriadau yn eu safleoedd fel bod y swigod yn siarad yn y drefn gywir.
- ⇒ Defnyddiwch liw i gynrychioli ystyr, er enghraifft, milwyr o wahanol ochr o'r frwydr, neu liwiau llachar ar gyfer dillad pobl gyfoethog.

C. Ychwanegu testun

Ar ôl datblygu'r elfennau gweledol o'r gelf comics, a thynnu llun ohonynt, ychwanegwch y testun i gwblhau'r strïbed comic.

Dyma rai awgrymiadau i helpu i fewnblannu cymhwysedd digidol at y prosiect.


- ⇒ Defnyddiwch ffynonellau digidol dibynadwy ar gyfer ymchwilio i'r safle sy'n cael ei archwilio.
- ⇒ Defnyddiwch ap celf comics i ddylunio cymeriadau a gosodiad llyfr comic.
- ⇒ Defnyddiwch offer digidol i deipio'r naratif a'r swigod siarad ar gyfer dyluniad a wnaed â llaw. Dewiswch ffont a maint priodol a'u hychwanegu ato.
- ⇒ Crëwch wefan fach i lunio siart y broses ymchwilio i'r prosiect cyfan, ac i arddangos y gelf comics ar ôl gorffen y dasg. Rhannwch hwn gyda theulu a ffrindiau a'r gymuned.
- ⇒ Dechreuwch dudalen Wikipedia gyda'r wybodaeth am y safle (neu ddiweddariad gyda gwybodaeth nad yw wedi ei chynnwys eisoes).
- ⇒ Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol i rannu trywydd y prosiect ar ddiwedd pob gwers, yn ogystal ag unrhyw waith gorffenedig.
- ⇒ Cofiwch roi tag i sefydliadau treftadaeth lleol a'r artistiaid comics.



Mae myfyrio'n rhan bwysig o ddysgu, ac mae artistiaid ac ymarferwyr creadigol yn aml yn myfyrio dros eu gwaith a'i fireinio sawl gwaith cyn iddynt deimlo ei fod yn gyflawn. Hefyd, mae artistiaid proffesiynol yn dueddol o rannu a thrafod gwaith sydd ar y gweill gyda'u cymheiriaid i helpu gyda'r broses hon. Wrth gymhwyso'r dull hwn o ddysgu, caiff dysgwyr eu galluogi i fod yn ddisgybledig yn y gelfyddyd o fireinio eu gwaith, a hefyd eu cefnogi i ddelio gyda beirniadaeth, boed honno'n adeiladol ai peidio.

Dyma rai syniadau i helpu gyda'r rhan hon o'r broses artistig:

- ⇒ Gwahoddwch y dysgwyr i roi sylwadau am eu gwaith eu hunain gan esbonio beth maen nhw'n ei hoffi amdano, beth maen nhw'n falch ohono, beth efallai fyddai'n wahanol y tro nesaf.
- ⇒ Gwahoddwch ddysgwyr i roi sylwadau ar waith ei gilydd drwy chwilio am ddangosyddion effeithiol, enghreifftiau da o ddeialog, straeon doniol, ymchwil da, sgiliau tynnu llun da, a naratifau wedi eu hysgrifennu'n dda.
- ⇒ Gwahoddwch y dysgwyr i roi sylwadau am waith dysgwr sy'n adrodd stori wahanol i'w stori eu hun – beth wnaeth y dysgwr ei ddysgu o'r stori honno?
- ⇒ Chwaraewch y gêm Rwy'n hoffi, Dysgais i, Y tro nesaf... Safwch mewn cylch ac fel grŵp edrychwch ar gomic un o'r dysgwyr. Yna gwahoddwch y grŵp un ar y tro, i sefyll a chynnig sylwadau. Er enghraifft, 'Rwy'n hoffi... (arddull manga o dynnu llun); Dysgais i...(fod y castell wedi ei adeiladu gan seiri maen a oedd yn werin bobl); Y tro nesaf...(ceisiwch liwio'r awyr yn las tywyll i awgrymu'r nos). Ewch o gwmpas y cylch fel bod pob dysgwr yn derbyn sylwadau am ei waith gan y grŵp i gyd.
- ⇒ Ar gyfer dysgwyr uwch, arweiniwch sesiwn sy'n adolygu'r comics gafodd eu cynhyrchu. Chwiliwch am ddefnydd da o iaith, gramadeg, strwythur, gwaith celf, a chyflawni'r briff gwreiddiol.



Rhannu a dathlu

Mae Cwricwlwm i Gymru ac Arts Awards yn annog ymglymiad cymunedol wrth ddysgu. Mae rhannu a dathlu creadigrwydd gyda'r gymuned yn rhan o hyn.

Mae'r gwaith creadigol y mae dysgwyr wedi ei ddatblygu yn ddehongliad o'r adeilad neu le y maen nhw wedi ymweld ag e – a chaiff hyn ei werthfawrogi'n fawr. Wrth rannu gwaith yn gyhoeddus mae hyn yn ychwanegu elfen o ddiben dilys at y creu, a gall wella ansawdd cynnyrch y dysgwyr.


Mae Cadw yn croesawu'r cyfle i holl aelodau ein cymuned rannu eu dehongliadau a'u gweithiau celf sy'n ymateb i dreftadaeth. Rhannwch eich gwaith gyda ni ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio tag @cadwwales a hashtag #crewrycadw.

Mae'n bosibl y bydd rhai safleoedd Cadw yn awyddus i arddangos gwaith gan bobl ifanc fel rhan o'u rhaglen arddangos. Cysylltwch â'ch safleoedd lleol i ofyn.

Gallech hefyd fynd at amgueddfa, oriel, llyfrgell neu hyd yn oed siop leol i weld a fydden nhw'n ystyried arddangos gwaith celf eich dysgwyr i'r gymuned ehangach.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig
whsi.org.uk

Crewyr Cadw: Celf Cadw



Dysgu pellach i bawb

Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: Cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i'w ymweld
Cadw.llyw.cymru/ymweld

Cof Cymru
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwyllianol ac arforol yng Nghymru
Coflein.gov.uk

Archwilio
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru
Archwilio.org.uk

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb
Hwb.cymru

 **@CadwWales**

 **@CadwWales**

 **@CadwCymruWales**